

PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL
14 HYDREF 2021

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd drwy fynychu o bell ddydd Iau, 14 Hydref 2021.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Clive Carver (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Haydn Bateman, Sean Bibby, Geoff Collett, Mared Eastwood, Patrick Heesom, Richard Jones, Kevin Rush, Paul Shotton, Andy Williams ac Arnold Woolley

DIRPRWY: Y Cynghorydd: Joe Johnson (ar ran Richard Lloyd)

CYFRANWYR: Y Cynghorydd Ian Roberts – Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet Addysg, Y Cynghorydd Billy Mullin – Dirprwy Arweinydd (Llywodraethu) a'r Aelod Cabinet Rheolaeth Gorfforaethol ac Asedau, Y Cynghorydd Paul Johnson – Aelod Cabinet Cyllid, Gwerth Cymdeithasol a Chaffael, Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Tai ac Asedau, Prif Swyddog (Llywodraethu), Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Rheolwr Cyllid Strategol a'r Rheolwr Cyllid

Ar gyfer cofnod rhif 40

Mr. John Gittins, Uwch Grwner Ei Mawrhydi ar gyfer Gogledd Cymru (Dwyrain a'r Canol)

HEFYD YN BRESENNOL: Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

39. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

40. COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 16 Medi 2021, fel y cawsant eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Geoff Collett ac Andy Williams.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.

41. OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad yn nodi cynnydd ar gamau gweithredu o'r cyfarfodydd blaenorol.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhelliad gan y Cynghorwyr Paul Shotton a Richard Jones.

PENDERFYNWYD:

Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud.

42. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ddiweddaraf i'w hystyried.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Richard Jones at becynnau gofal ar y cyd a drafodwyd yng nghyfarfod mis Gorffennaf a dywedodd nad oedd y cais am fanylion y swm a gollwyd i'r Cyngor dros gyfnod rhesymol o amser wedi cael ei weithredu eto. Gofynnodd am gadarnhad hefyd ynghylch a oedd llythyr wedi cael ei anfon at y Bwrdd Iechyd yn ceisio mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn y broses apelio am benderfyniadau ar becynnau gofal oedd wedi'u hariannu ar y cyd.

Dywedodd y Prif Weithredwr bod penderfynu ar becynnau gofal o'r fath yn bwnc cymhleth ers tro gyda goblygiadau cost sylweddol ac roedd y Cyngor wedi ymgysylltu'n helaeth gyda'r Bwrdd Iechyd. Dywedodd bod ymrwymiad wedi'i roi yn y gorffennol gan y Bwrdd Iechyd i adolygu'r system a bod angen ei adolygu eto. Fe awgrymodd efallai yr hoffai'r Pwyllgor wneud cais am gyfarfod preifat ar frys rhwng swyddogion a Phrif Weithredwr y Bwrdd Iechyd er mwyn adolygu proses a chanlyniadau, gydag adroddiad llawn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Siaradodd y Cynghorydd Jones am oblygiadau ariannol i'r Cyngor a dywedodd na ddylai cyfraniadau amcanol gan y Bwrdd Iechyd gael eu cynnwys yn y gyllideb nes bod y broses apeluadau wedi dod i ben. Cynigiodd yr awgrym a wnaed gan y Prif Weithredwr a gofynnodd bod yr adroddiad, yn cynnwys gwybodaeth a ofynnwyd amdani ym mis Gorffennaf, yn dod yn ôl i'r Pwyllgor ym mis Tachwedd/Rhagfyr. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Arnold Woolley.

PENDERFYNWYD:

- (a) Cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol; fel y'i diwygiwyd yn y cyfarfod;
- (b) Bod y Prif Weithredwr yn cysylltu â Phrif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, yn ceisio cyfarfod adolygu brys i'r diffyg mewn pecynnau ariannu ar y cyd, sydd wedi'u achosi gan benderfyniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyllid. Bod adroddiad am hyn, yn cynnwys datrysiad 16(c) o'r cyfarfod ar 8 Gorffennaf 2021, yn dod yn ôl i'r Pwyllgor yma a Phwyllgor Trosolwg a Chraffu Iechyd a Gofal Cymdeithasol ym mis Tachwedd/Rhagfyr 2021; a
- (b) Bod Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, yn cael ei awdurdodi i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

43. GWAITH SWYDDFA'R CRWNER

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) adroddiad am waith Crwner Gogledd Cymru (Dwyrain a'r Canol) a'r gwaith a wnaed ar ran Cynghorau yng Nghonwy, Sir Ddinbych, Wrecsam a Sir y Fflint.

Roedd Mr. John Gittins, Uwch Grwner Uwch Grwner dros Ogledd Cymru - Dwyrain a'r Canol, yn bresennol i roi cyflwyniad oedd yn cynnwys:

- Gorchymyn Gogledd Cymru (Dwyrain a'r Canol) (Rhanbarth Crwner)
- Swyddog Barnwrol Annibynnol
- Ystadegau
- Cefnogaeth
- Y Gyfraith
- Y 'Groesffordd'
- Ymchwiliad
- Y Cwest
- Pwerau'r Crwner – Atodlen 5 / Goblygiadau
- Atal marwolaethau yn y dyfodol
- Pethau cadarnhaol...ac amseru damweiniol
- Swyddi a chyfrifoldebau eraill
- "Lle mae'n gorffen?"

Tynnodd yr adroddiad sylw at yr ystod eang o bwerau deddfwriaethol a chyfrifoldebau sydd gan y Crwner a oedd yn swydd hanesyddol sy'n cael ei hariannu gan awdurdod lleol ar sail statudol. Rhannwyd gwybodaeth hefyd am bwerau'r Crwner i gyhoeddi adroddiadau o dan Rheoliad 28 Rheoliadau (Ymchwiliadau) Crwneriaid 2013 oedd yn gofyn i sefydliadau, yn cynnwys awdurdodau lleol i weithredu er mwyn lleihau'r risg o farwolaethau yn y dyfodol. Cyfeiriwyd hefyd at waith y Prif Weithredwr yn cefnogi swyddfa'r Crwner yn ystod sefyllfa o argyfwng.

Diolchodd y Prif Weithredwr i Mr. Gittins am ei gyflwyniad ac am y modd y mae'n ymgymryd â'i swydd.

Gan ymateb i gwestiynau gan Aelodau, fe eglurodd Mr. Gittins sgôp ei gyfrifoldebau cyfreithiol.

Dywedodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) y byddai'r argymhelliad bod y Pwyllgor yn derbyn adroddiadau blynyddol gan y Crwner yn y dyfodol yn gyfle i ystyried perfformiad a'r pwysau sydd yn y gwasanaeth.

Ar ran y Pwyllgor, diolchodd y Cadeirydd i Mr. Gittins am ei gyflwyniad llawn gwybodaeth a gafodd ei groesawu.

Cafodd yr argymhelliad ei gynnegi a'i eilio gan y Cynghorwyr Richard Jones a Mared Eastwood.

PENDERFYNWYD:

Bod y Pwyllgor yn diolch i'r Crwner am ei waith ac yn cael rhagor o adroddiadau yn flynyddol.

**44. STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG/CYLLIDEB 2022/23 – CAM 2
YMATEBION TROSOLWG A CHRAFFU**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad i ystyried canlyniad ymgynghoriad gyda'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar gynigion cyllideb 2022/2023, i alluogi'r Pwyllgor i ymateb i'r Cabinet. Diolchodd i holl Aelodau'r Pwyllgor, Cadeiryddion ac Aelodau Cabinet am eu cyfraniadau a'u cefnogaeth yn ystod y broses hon.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys adborth o dri o'r Pwyllgorau a rhoddwyd diweddariad ar lafar am y ddau oedd yn weddill a oedd wedi cyfarfod. Roedd pob un wedi cefnogi'r pwysau costau o fewn eu portffolios ac nid oeddynt wedi gallu nodi rhagor o gyfleoedd i arbed arian. Y ddau fater oedd yn codi oedd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant oedd yn ceisio rhagor o fanylion am ddyrannu buddsoddiad £1m arfaethedig mewn ysgolion a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac lechyd oedd yn gofyn am fonitro risgiau agored yn ofalus.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd bod yr ymgynghoriad wedi cyflawni gofynion cyfansoddiadol a bod yr adroddiad i'r Cabinet wedi cael ei ddiweddarau i adlewyrchu bod y rhan yma o'r gyllideb wedi'i chwblhau.

Rhoddodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol ddiweddariad am bedwar prif newid oedd yn effeithio ar amcangyfrif cyllideb y Cyngor:

- Rhagamcanion o ddyfarniadau cyflog i adlewyrchu'r sefyllfa bresennol ar drafodaethau cenedlaethol – 1.75% ar gyfer y flwyddyn bresennol ar sail reolaidd ar gyfer y flwyddyn nesaf a 1% o 2022/23
- Cynnydd Yswiriant Gwladol – ychydig dros £1.4m
- Cynnydd yn lwfans Aelodau (fel yr argymhellwyd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol) - £0.184m
- Pwysau amrywiol a ohiriwyd am eu bod yn ddianghenraid neu wedi'u hariannu drwy grantiau eraill – cyfanswm cynnydd i ychydig dros £18m

Ar ddatrysiadau cyllideb, roedd y targed arbedion effeithlonrwydd a ragamcanwyd i'w gyrraedd o £2m wedi cael ei ddiwygio i £1.25m. Byddai angen cynnydd o 5.75% mewn Grant Cefnogaeth Refeniw i gefnogi'r holl bwysau cost a nodwyd, a oedd yn unol â'r achos ariannol a wnaed gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC).

Dywedodd y Prif Weithredwr bod trafodaethau cenedlaethol presennol am ddyfarniad tâl y rhai nad ydynt yn athrawon yn dynodi bod y rhagamcan yn debygol o fod yn uwch a bod trafodaethau Gweinidogol drwy'r CLILC yn parhau.

Gan ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Richard Jones, fe eglurodd y Prif Weithredwr bod rhagamcan yr Yswiriant Gwladol yn cynnwys darpariaeth ar gyfer Aura Cymru, Arlwyo a Glanhau NEWydd a Theatr Clwyd. Roedd yr achos tystiolaethol cenedlaethol gan CLILC yn cael ei ystyried yn ragamcan realistig i lywio penderfyniad cenedlaethol. Byddai Setliad annigonol yn golygu bod angen adolygiad o bwysau cost dianghenraid a risgiau cysylltiedig, o ystyried bod

rhagamcan y gyllideb wedi cael ei gefnogi heb sgôp ar gyfer arbedion effeithlonrwydd pellach.

Dywedodd y Cynghorydd Ian Roberts y byddai penderfyniadau Llywodraeth Cymru yn cael ei ddylanwadu gan ddatganiad y Canghellor ar y gyllideb.

Diolchodd y Cynghorydd Paul Johnson i holl Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu am eu cyfraniadau a her i'r broses gyllideb.

Rhoddodd y Cynghorydd Richard Jones deyrnged i waith y Prif Weithredwr yn llunio'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a oedd wedi bod yn declyn defnyddiol wrth gynllunio ariannol. Dywedodd y Prif Weithredwr mai gwaith tîm oedd hyn oedd yn cynnwys Aelodau, Tîm y Prif Swyddogion a Swyddogion Cyllid.

Cafodd yr argymhelliad, a gafodd ei ddiwygio i adlewyrchu'r drafodaeth, ei gynnig a'i eilio gan y Cynghorwr Paul Shotton a Richard Jones.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo ymatebion Trosolwg a Chraffu i ymgynghoriad y gyllideb i'r Cabinet; a
- (b) Diolch i'r Prif Weithredwr am lunio ac arwain proses Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor.

45. MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2021/22 (MIS 5)

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol adroddiad am sefyllfa Mis 5 2021/22 ar gyfer Monitro Cyllideb Refeniw cyn i'r Cabinet ei ystyried. Roedd yn cynnwys canlyniad adolygiad o gronfeydd wrth gefn a balansau gwasanaeth y gofynnwyd amdanynt gan y pwyllgor ym mis Gorffennaf.

O ran Cronfa'r Cyngor, dywedodd y Rheolwr Cyllid bod y sefyllfa a ragwelwyd ar ddiwedd y flwyddyn - heb unrhyw gamau gweithredu newydd i leihau pwysau costau a/neu wella'r elw o gynllunio effeithlonrwydd a rheoli cost - yn warged gweithredol o £0.182 miliwn (heb gynnwys effaith dyfarniad tâl i gael ei dalu o gronfeydd wrth gefn), gan adael balans cronfa wrth gefn a ragwelwyd o £5.875 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd y symudiad ffafriol yma yn bennaf oherwydd dyraniad cyllid Grant Adferiad Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru yng Ngofal Cymdeithasol Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir.

Ymysg y risgiau yn ystod y flwyddyn, roedd yna welliant yn lefelau casglu Treth y Cyngor ac roedd y galw am y Cynllun Lleihau Treth y Cyngor yn cael ei fonitro wrth i ddiwedd y cynllun ffyrlo agosáu.

Rhoddwyd diweddariad am gyflawni arbedion a gynlluniwyd yn ystod y flwyddyn, cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u neilltuo a heb eu neilltuo, ynghyd â sefyllfa ariannu mewn argyfwng oedd yn adnabod peryglon yn sgil newidiadau i feini prawf cymhwyso. Mae'r adolygiad parhaus o gronfeydd wrth gefn a

balansau gwasanaeth wedi nodi £0.585m a fydd yn cael ei argymhell i'w ryddhau yn ôl mewn i'r Gronfa Arian at Raid.

Yn y Cyfrif Refeniw Tai, roedd gorwariant arfaethedig o £0.633m yn gadael balans terfynol heb ei neilltuo yn £3.839m, a oedd yn uwch na'r canllawiau argymelledig ar wariant.

Gofynnodd y Cynghorydd Paul Shotton am effaith costau chwyddiannol a newidiadau i'r Credyd Cynhwysol ar sefyllfa ddigartrefedd. Dywedodd y Rheolwr Cyllid bod y Grant Cymorth Tai ymysg y rhai oedd yn destun newidiadau mewn cymhwysedd ac fe wneir y mwyaf ohono i gefnogi unigolion.

Dywedodd y Prif Swyddogion (Tai ac Asedau) bod y pwysau amrywiol ar y sefyllfa ddigartrefedd yn cael ei fonitro'n agos gan y rhagwelir rhagor o alw am y gwasanaeth. Roedd y newyddion diweddaraf yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau, Tai ac Asedau yn rheolaidd.

Gan ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Richard Jones, dywedodd y Prif Weithredwr bod rheolau pellter yn dod i ben yn raddol yn unol ag asesiadau risg ac mewn ymgynghoriad gydag Undebau Llafur, ac y byddai nifer o wasanaethau yn mynd i gostau rheolaidd ar ôl i'r Gronfa Galedi ddod i ben. O ran y risg gyda'r dyfarniadau tâl, cafwyd eglurhad tra bod dyfarniad tâl athrawon yn ystod y flwyddyn wedi'i setlo, roedd trafodaethau ar gyfer tâl y rhai nad oedd yn athrawon ar draws y DU yn parhau ar agor a'u bod y tu hwnt i reolaeth y Cyngor.

Gan ymateb i'r cwestiynau, fe atgoffodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol yr Aelodau am y sefyllfa ddiweddar ar ddyfarniadau tâl – cafwyd adroddiad ar lafar yn yr eitem flaenorol – byddai'n cael ei ddiweddarau ar gyfer yr adroddiad misol nesaf. Cytunodd y Rheolwr Cyllid i gynnwys mwy o fanylion yn adroddiad Mis 6 am y risgiau sy'n deillio o newidiadau i'r Gronfa Galedi.

Cafodd yr argymhelliad ei gynneg a'i eilio gan y Cynghorwyr Paul Shotton a Geoff Collett.

PENDERFYNWYD:

Ar ôl ystyried adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw 2021/22 Mis 5, bod y Pwyllgor yn cadarnhau nad oedd yna faterion oedd angen eu codi gyda'r Cabinet y tro hwn.

46. AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 11.40pm)

.....
Y Cadeirydd